**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddPlant@senedd.cymru

05/06/2025

Annwyl Gadeirydd,

**Ymgynghoriad: Recriwtio a chadw athrawon**

Diolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad uchod. Yn strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru, tanlinellir pwysigrwydd athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i lwyddiant y strategaeth. Rydym yn ymateb i'r ymgynghoriad yn y cyd-destun hwnnw ac yng nghyd-destun rôl hanfodol athrawon cyfrwng Cymraeg i lwyddiant Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru), a basiwyd yn y Senedd ar 13 Mai 2025.

**Heriau'r sefyllfa gyfredol**

Mae *Cymraeg 2050* a'r Bil ill dau yn cyflwyno gweledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn addysg. Un o amcanion *Cymraeg 2050* yw sicrhau bod 40% o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050 ac mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ymgynghori ar godi'r targed hwnnw i 50%. Bwriad y Bil yw sicrhau fod pob disgybl yn gadael yr ysgol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol, p'un ai a yw'r disgyblion yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg. Bydd rhaid gweddnewid cyfraddau caffael y Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn cyflawni'r nod yn y sector hwnnw. O ran ysgolion cyfrwng Cymraeg, tua 23% o ddysgwyr sy'n eu mynychu a phrin mae'r ffigwr hwn wedi newid ers degawd. Mae pryder felly am y tebygolrwydd o gyrraedd y gyfran o 30% erbyn 2031 yr anelir ato yn nhaflwybr *Cymraeg 2050*. Byddai methu'r targed hwnnw yn codi pryderon am gyrraedd y nod yn 2050.

Mae'n amlwg mai un o'r prif heriau o ran cyflawni targedau ac amcanion strategaeth *Cymraeg 2050* a'r Bil fydd sicrhau gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog. Mae'r Llywodraeth wedi gosod targedau ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r diffyg cynnydd digonol yn y cyd-destun hwn wedi bod yn bryder i'r Comisiynydd ers blynyddoedd.[1]

Rydym yn deall o'r ohebiaeth a gyhoeddwyd rhwng y Pwyllgor ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg eich bod yn rhannu ein pryderon am recriwtio athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ei lythyr dyddiedig 24 Mehefin 2024 cyfeiria'r Pwyllgor at ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru, sy'n dangos mai 20% o'r myfyrwyr blwyddyn gyntaf ar gyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru sy'n gallu addysgu yn y Gymraeg. Noda'r Pwyllgor ei fod ar ddeall fod y Llywodraeth yn disgwyl i bartneriaethau AGA weithio tuag at dderbyn 30% o fyfyrwyr sy'n paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn gosod targedau i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn 2031 mae targed i sicrhau 3,900 o athrawon cynradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a 4,100 o athrawon uwchradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ei llythyr at y Pwyllgor dyddiedig 9 Medi 2024 cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod bwlch sylweddol i'w lenwi os am gyrraedd y targedau hyn mewn pryd. Yn ôl adroddiad blynyddol *Cymraeg 2050* ar gyfer 2023/24 roedd 2,792 o athrawon cynradd a 2,549 o athrawon uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pumed adroddiad Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru (CACAC) a gyhoeddwyd yn 2024 yn mynegi pryder am yr anawsterau wrth recriwtio athrawon, gan gynnwys athrawon cyfrwng Cymraeg, mewn rhai ardaloedd. Mae canlyniadau'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Addysg ar gyfer Tachwedd 2023 yn dangos fod cyfartaledd y ceisiadau am swyddi gwag cyfrwng Cymraeg (4.5) yn is i'w gymharu â'r ceisiadau am swyddi gwag cyfrwng Saesneg (9.1). Mae adroddiad CACAC hefyd yn nodi fod nifer y ceisiadau am swyddi gwag mewn ysgolion uwchradd, ym maes pwnc Cymraeg iaith gyntaf, wedi gostwng rhwng Ionawr 2019 a Rhagfyr 2022. Yn ei hymateb i'r Pwyllgor nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod nifer cyfartalog y ceisiadau am swyddi gwag ym maes pwnc y Gymraeg wedi gostwng rhwng 2020/21 a 2022/23 ac mai'r nifer hwnnw oedd yr isaf o 11 maes pwnc a restrwyd.

Dylid nodi bod Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi diweddariad o'r dadansoddiad data a gafodd ei lunio fel rhan o Gynllun y gweithlu Cymraeg mewn Addysg. Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth hynod fanwl am sgiliau ieithyddol y gweithlu addysg, gan gynnwys data am hyfforddi athrawon, sgiliau Cymraeg fesul pwnc, sgiliau Cymraeg fesul awdurdod lleol a manylion am sgiliau Cymraeg staff cymorth a staff anghenion dysgu ychwanegol. Er ei fod yn anodd crynhoi'r darlun ystadegol manwl hwn, teg yw dweud fod yr ystadegau ar y cyfan yn amlygu bod her sylweddol yn ein hwynebu o ran recriwtio athrawon cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg yn ei gyfanrwydd yn adlewyrchu amcanion polisi'r Llywodraeth mewn perthynas ag addysg Gymraeg.

[1] Gweler ein nodyn briffio, Y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol, a gyhoeddwyd yn 2020.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## Y Gymraeg fel pwnc

Yn ogystal â'r anawsterau wrth recriwtio athrawon i addysgu'r pwnc, mae cryn bryder am nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Safon Uwch Cymraeg a Safon Uwch Cymraeg ail iaith. Yn 2008/9 roedd 304 o ddysgwyr yn astudio Cymraeg iaith gyntaf a 489 yn astudio Cymraeg ail iaith. Yn 2022/23 gostyngodd y niferoedd i 176 yn astudio Cymraeg iaith gyntaf a 112 yn astudio Cymraeg ail iaith. Nid yw hyn yn argoeli'n dda yng nghyd-destun amcanion *Cymraeg 2050*, Bil y Gymraeg ac Addysg a'r angen i gynyddu'n sylweddol nifer yr athrawon a fydd yn gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn y dyfodol.

Mae athrawon wedi cysylltu â'r Comisiynydd i fynegi eu pryder bod sefyllfa'r Gymraeg fel pwnc ar ôl TGAU yn fregus ers cryn amser a bod y broblem yn gwaethygu. Ymddengys mai rhan o'r rheswm dros hyn yw bod llai o ganolfannau yn cynnig y Gymraeg fel pwnc a bod tuedd gynyddol i awdurdodau lleol gynnig darpariaeth dysgu Cymraeg ar-lein yn hytrach na darpariaeth wyneb yn wyneb. Nid yw astudio ar-lein yn ymddangos yn ddewis deniadol i fwyafrif y dysgwyr, a'r canlyniad yw bod y mwyafrif a oedd yn awyddus i astudio'r Gymraeg yn dewis pynciau eraill a gynigir wyneb yn wyneb yn yr ysgol.

Yn 2024 cyhoeddwyd Gwerthusiad o Gynlluniau Hyrwyddo'r Gymraeg fel Pwnc gan IAITH. Credwn fod angen ystyried argymhellion y gwerthusiad hwn ar fyrder, gan gynnwys yn benodol argymhelliad 4: 'Dylid bod gorfodaeth ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod darpariaeth Safon Uwch Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith ar gael i bob dysgwr o fewn eu canolfannau ôl-16'. Fel mae'r gwerthusiad yn ei amlygu, mae angen ystyried ystod o ymyraethau gwahanol er mwyn cefnogi'r Gymraeg fel pwnc, ond mae angen sylw yn y lle cyntaf i sicrhau bod y Gymraeg yn ddewis hawdd a hygyrch i bob dysgwr.

## Sgiliau Cymraeg y gweithlu

Dywed Ysgrifennydd y Cabinet fod y Llywodraeth yn gwneud cynnydd graddol gyda Chynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg a gyhoeddwyd yn 2022 ond fod her enfawr o hyd. Noda'r camau y mae'r Llywodraeth wedi eu cymryd i wella cyfraddau recriwtio athrawon uwchradd i ysgolion cyfrwng Cymraeg a chefnogi athrawon i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Trafoda gydweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys yr awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i wella dealltwriaeth o sgiliau Cymraeg ac anghenion hyfforddi'r gweithlu addysg, er mwyn diwallu'r anghenion hynny. Cyfeiria hefyd at weithio gyda phartneriaid megis Cyngor y Gweithlu Addysg a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu strategaeth farchnata gyrfa mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Rydym yn cefnogi'r camau hyn ac yn annog y Llywodraeth, yn sgil pasio Bil y Gymraeg ac Addysg, i ailedrych ar Gynllun y Gweithlu Cymraeg mewn Addysg. Fel y nodwyd yn ein hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Bil ym mis Medi 2024 mae angen datblygu a chyflwyno ymyraethau ar raddfa llawer mwy sylweddol trwy strategaeth gweithlu addysg genedlaethol a chynhwysfawr sy'n adlewyrchu uchelgais y Bil. Ar hyn o bryd, nid yw'r strategaeth ar gyfer creu gweithlu addysg dwyieithog yn agos at adlewyrchu hynny, na gweledigaeth *Cymraeg 2050*.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Mae ceisio recriwtio ac annog mwy o siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn addysgu yn un rhan o'r ateb, ond er mwyn cyflawni amcanion Bil y Gymraeg ac Addysg credwn y bydd rhaid canolbwyntio ar ffurfioli a dwysáu'r strategaethau ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg gweithlu addysg y dyfodol yn ei gyfanrwydd. Er mwyn i ysgolion a disgyblion symud ar hyd continwwm ieithyddol, bydd rhaid i'r gweithlu addysg symud ar hyd y continwwm yn y lle cyntaf. Nid yw nifer y siaradwyr Cymraeg presennol a nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n deillio o'r gyfundrefn addysg gyfredol yn debygol o arwain at ddigon o athrawon i gyflawni amcanion y Bil. Heb ymyrraeth sylweddol, mae perygl y gwelwn ni gylch diddiwedd lle bydd prinder athrawon sydd â sgiliau Cymraeg yn rhwystr parhaus rhag sicrhau cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n gadael yr ysgol yn medru siarad y Gymraeg a'i defnyddio.

Mae'n ddadlennol bod y Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Addysg ar gyfer Tachwedd 2023 yn dangos mai ychydig iawn o newid cadarnhaol a welwyd dros y tair blynedd diwethaf yn lefelau sgiliau Cymraeg holl athrawon Cymru. Roedd y data hefyd yn dangos bod nifer uchel o athrawon mewn rhai awdurdodau lleol o hyd sydd heb ddim sgiliau Cymraeg neu sydd â sgiliau ar lefel mynediad. Ar lefel Cymru gyfan, roedd cynnydd yn nifer yr athrawon oedd heb ddim sgiliau Cymraeg neu oedd â sgiliau ar lefel mynediad ac roedd gostyngiad yn nifer yr athrawon oedd â sgiliau ar lefel canolradd ac ar lefel uwch/hyfedr.[2] Mae'n amlwg bod angen newid y darlun ystadegol hwn yn sylweddol os am wireddu amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Bydd rhaid dwysáu'n fawr y cynlluniau i gefnogi'r athrawon hyn, ac athrawon y dyfodol, i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac i gynyddu'n sylweddol y nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth addysgu.

Mewn adroddiad yn 2023 ar y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, rhybuddiodd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y gallai prinder athrawon cyfrwng Cymraeg danseilio targedau *Cymraeg 2050*. Dywedodd bod rhaid rhoi blaenoriaeth i gefnogi'r gweithlu addysgu i uwchsgilio a gwnaeth argymhellion gwerthfawr ar sut i gyflawni hynny. Gwnaeth adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Fil y Gymraeg ac Addysg hefyd gyfres o argymhellion pwysig ynghylch datblygu gweithlu addysg cynyddol ddwyieithog. Anogwn y Llywodraeth i fynd ati ar fyrder i weithredu'r argymhellion hyn.

Fel rhan o unrhyw strategaeth ar gyfer creu gweithlu addysg dwyieithog, mae'n allweddol ystyried pwysigrwydd y sector cyn ysgol a'r sector ôl-statudol yn ogystal. Mae *Cymraeg 2050* yn pwysleisio cyfraniad allweddol gofal plant cyfrwng Cymraeg i gyrraedd nod y strategaeth ac yn adnabod yr angen i ddatblygu gweithlu'r sector hwnnw. Yn yr un modd, cydnabyddir yr angen am gynnydd sylweddol yn y gweithlu addysg ôl-16 sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dangosodd ein hymchwil i brofiadau dysgwyr ôl-16 mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, a rannwyd â'r Pwyllgor, bod diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhai meysydd yn parhau i rwystro dysgwyr rhag astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn cynorthwyo ein holl ddysgwyr i gyrraedd eu potensial o safbwynt ieithyddol, dylid annog pob athro yng Nghymru i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg gam wrth gam a defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol fel

[2] Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data - Diweddariad 2024 – gweler tabl 3.1.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

cyfrwng addysgu. Rydym hefyd wedi galw, mewn papur polisi a gyhoeddwyd yn 2023, am ddatblygu'r gweithlu anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg. Mae diffyg staff arbenigol â'r sgiliau ieithyddol priodol yn her fawr yn y maes hwnnw.

**Y ffordd ymlaen**


Yn dilyn pasio Bil y Gymraeg ac Addysg, credwn y dylid adeiladu ar y momentwm i hyrwyddo gyrfa mewn addysg cyfrwng Cymraeg a sefydlu rhaglen dysgu Cymraeg gynhwysfawr sy'n rhan annatod o hyfforddi fel athro neu gynorthwyydd dysgu yng Nghymru. Dylai datblygu sgiliau Cymraeg fod yn orfodol i bawb sy'n hyfforddi i addysgu yng Nghymru, waeth beth fo'u sgiliau ieithyddol ar ddechrau eu hyfforddiant, gyda sicrwydd o gefnogaeth gydol gyrfa.

Rydym yn galw ar y Llywodraeth i ymrwymo i sefydlu fframwaith hyfforddiant iaith Gymraeg pum mlynedd a fyddai'n rhan orfodol o hyfforddi a chymhwyso fel athro yng Nghymru. Byddai'r fframwaith â'r nod hir dymor o sicrhau bod pob athro yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'r hyfforddiant yn cychwyn fel rhan greiddiol o bob cwrs AGA ac yn parhau fel rhan ofynnol o gyfnod sefydlu a dysgu proffesiynol athrawon newydd am bedair blynedd cyntaf eu gyrfa. Byddai angen i'r fframwaith gynllunio cyfres o lwybrau hyfforddiant Cymraeg gwahanol wedi'u teilwra ar gyfer hyfforddeion â lefelau hyfedredd gwahanol yn y Gymraeg. Byddai modd gosod gweledigaeth hir dymor ynghylch sut y byddai'r disgwyliadau a'r hyfforddiant yn cael eu cynyddu dros amser, yn unol ag amserlen ddisgwyliedig Bil y Gymraeg ac Addysg.

Mae angen newid meddylfryd. Gan gydnabod pwysigrwydd recriwtio athrawon newydd â sgiliau Cymraeg, mae'r ffigurau yn dangos bod rhaid canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu yn ei gyfanrwydd. Dylid gwneud hyn mewn modd cadarnhaol, ac yn hytrach na'i fod yn ymddangos yn faich ar athrawon, dylid ei gyflwyno fel cyfle gwerthfawr i gyflawni'n broffesiynol.

Gobeithio y bydd y sylwadau uchod o gymorth i'ch ymgynghoriad.

Yr eiddoch yn gywir,



**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg